SEAGER, JOHN ELLIOT (1891 - 1955), perchennog llongau

Enw: John Elliot Seager
Dyddiad geni: 1891
Dyddiad marw: 1955
Priod: Dorothy Irene Seager (née Jones)
Rhiant: Margaret Annie Seager (née Elliot)
Rhiant: William Henry Seager
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: perchennog llongau
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 30 Gorffennaf 1891, yn fab hynaf Syr William Henry Seager a Margaret Annie (ganwyd Elliot), a brawd George Leighton Seager. Priododd, 26 Mai 1922, â Dorothy Irene Jones o Bontypridd, a bu iddynt bedwar o blant. Addysgwyd ef yn Ysgol Uwchradd Caerdydd a Choleg y Frenhines, Taunton, cyn ymuno â chwmnïau llongau ei dad lle y cafodd brofiad eang o oruchwylio'r gwaith, rheoli'r llongau masnach a'u darparu ar gyfer eu taith. Cyn hir daeth yn gyfarwyddwr tua deuddeg o gwmnïau llongau a rhai diwydiannol a bu'n gadeirydd nifer ohonynt. Am gyfnod bu'n gynghorwr mygedol yn y Weinyddiaeth Fwyd ar sicrhau nwyddau llongau. Bu'n Y.H. ac yn Uchel Siryf Morgannwg, 1937-38. Cymerai ddiddordeb mawr mewn gwaith cymdeithasol ac elusennol, yn enwedig ar ran cymdeithasau ieuenctid ac ysbytai. Gweithiai'n ddiarbed a gwnâi bopeth yr ymgymerai ag ef yn drylwyr. Yn ystod Rhyfel Byd I ymunodd â'r South Wales Borderers ac enillodd M.C. Bu farw 8 Ionawr 1955 yn ei gartref, T Gwyn Court, Caerdydd.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who was who?

The Times, 10 Ionawr 1955

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746811

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu